OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 1011

## Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2004

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn —

mae i "asiantaeth fabwysiadu" yr un ystyr ag "*adoption agency*" yn Neddf Mabwysiadu 1976(**1**);

mae i "credyd treth plant" yr un ystyr â "*child tax credit*" yn Neddf Credydau Treth 2002 (**2**));

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002;

ystyr "defnyddiwr gwasanaethau cymorth mabwysiadu" ("*adoption support services user*") yw person a bennir yn yr Atodlen;

mae "gwasanaethau cymorth mabwysiadu" ("*adoption support services*") i'w dehongli yn unol â rheoliad 3(1);

ystyr "hysbysu" ("*notify*") yw hysbysu yn ysgrifenedig;

mae i "plentyn sydd yn derbyn gofal" yr un ystyr ag "*a child who is looked after*" yn adran 22(1) o Ddeddf Plant 1989(**3**);

ystyr "Rheoliadau 1983" ("*the 1983 Regulations*") yw Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu 1983(**4**);

ystyr "rhiant mabwysiadol" ("*adoptive parent*") yw person —

(a) y mae asiantaeth fabwysiadu wedi penderfynu yn unol â rheoliad 11(1) o Reoliadau 1983 y byddai'n rhiant mabwysiadol addas i blentyn;

(b) y mae asiantaeth fabwysiadu wedi lleoli plentyn gydaf ef i'w fabwysiadu;

(c) sydd wedi hysbysu ei fwriad, o dan adran 22(1) o Ddeddf Mabwysiadu 1976, i wneud cais am orchymyn mabwysiadu am blentyn; neu

(ch) sydd wedi mabwysiadu plentyn,

ond nid yw'n cynnwys person os nad yw'r plentyn bellach yn blentyn, neu os yw'r person yn llys-riant neu'n rhiant naturiol y plentyn, neu a oedd yn llys-riant i'r plentyn cyn iddo fabwysiadu'r plentyn; ac

ystyr "teulu mabwysiadol" ("*adoptive family*") yw plentyn mabwysiadol, rhiant mabwysiadol y plentyn mabwysiadol, unrhyw blentyn i'r rhiant mabwysiadol ac y mae cyfeiriadau at deulu mabwysiadol person neu gyfeiriadau neu mewn perthynas â theulu mabwysiadol person, i'w dehongli fel y teulu mabywsiadol y mae'r person hwnnw yn aelod ohono.

(2) Yn y Rheoliadau hyn —

(**1**) Gan adran 1(4) o Ddeddf Mabwysiadu 1976, caniateir cyfeirio at awdurdod lleol neu gymdeithas fabwysiadu briodol fel asiantaeth fabwysiadu. Diffiniwyd y term "appropriate voluntary organisation" yn adran 1(5) o Ddeddf 1976, fel y'i mewnosodwyd gan adran 116 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 ac Atodlen 4, paragraff 5 iddi, t.14.

(**2**) 2002 p.21.

(**3**) 1989 p.41.

(**4**) O.S. 1983/1964, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1997/649, O.S. 1983/2308 ac O.S. 2001/2237.

(a) yn ddarostyngedig i baragraff (b), ystyr "plentyn mabwysiadol" yw plentyn a fabwysiadwyd, neu blentyn y gellir ei fabwysiadu;

(b) mae cyfeiriadau at blentyn mabwysiadol person yn gyfeiradau at blentyn heblaw llysblentyn, a fabwysiadwyd, neu y mae caniatâd i'w fabwysiadu, gan y person hwnnw.

(3) Yn rheoliadau 8 i 15, ystyr "plentyn" ("*child*") yw plentyn mabwysiadol, ac mae cyfeiriadau at blentyn person yn gyfeiriadau at blentyn, heblaw llysblentyn y person, a fabwysiadwyd neu y mae caniatâd i'w fabwysiadu gan y person hwnnw.